

**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU****LEGISLATION COMMITTEE
REPORT****The Vegetable Seed (Wales) Regulations 2005**

Mae cyfarwydddebau'r Gymuned Ewropeaidd yn gofyn bod rhaid i hadau sicrhau ardystiad swyddogol eu bod wedi bodloni safonau ansawdd penodol cyn cael eu marchnata. Mae'r Rheoliadau yma'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni cyn i hadau llyisiau gael eu hardystio.

Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r mân wallau drafftio canlynol wedi'u nodi [Rheol Sefydlog 11.7(v)]:-

- Rheoliad 2(1), y diffiniad o "The Vegetable Seed Directive"; y Penderfyniad diwygio y cyfeirir ato yw Penderfyniad y Comisiwn 2004/117. Mae'r Penderfyniad hwnnw'n cyfeirio at dderbyn dros dro a mewnfurio ceffylau o Dde Affrica i'r Undeb Ewropeaidd. I fod yn gywir, at Gyfarwyddeb 2004/117 y dylid cyfeirio.
- Mae rheoliad 14(1)(a) yn cyfeirio at samplau sy'n cael eu hanwybyddu yn unol â rheoliad 22(7). Does dim rheoliad 22(7); y croesgyfeiriad cywir yw rheoliad 22(6).
- Mae rheoliad 25 yn nodi gofynion ynglyn â labelu pecynnau. Ceir nifer o groesgyfeiriadau at amryw o baragraffau yn Atodlen 8 (y mae angen ei diwygio hithau yn unol â'r hyn sydd wedi'i

nodi isod) ac mae angen diwygio'r rhain fel a ganlyn:

- Rheoliad 25(6)(a); dylai cyfeiriadau at baragraffau 9 i 14 fod yn gyfeiriadau at baragraffau 8 i 14;
- Rheoliad 27(7)(a): dylai cyfeiriadau at baragraffau 15 i 17 fod yn gyfeiriadau at baragraffau 13 a 14;
- Rheoliad 27(8)(a): dylai cyfeiriadau at baragraffau 18 i 22 fod yn gyfeiriadau at baragraffau 15 i 19;
- Rheoliad 27(9)(a): dylai cyfeiriadau at baragraffau 23 i 26 fod yn gyfeiriadau at baragraffau 20 i 23;
- Rheoliad 27(10): dylai cyfeiriadau at baragraffau 27 i 30 fod yn gyfeiriadau at baragraffau 24 i 27; a
- Rheoliad 27(11)(a)(ii): dylai'r cyfeiriad at baragraff 9(c), (d), (e), (f) a (g) fod yn gyfeiriadau at baragraff 8(c), (d), (e), (f) a (g).

- Mae Rheoliad 32(1)(a) yn dirymu Vegetable Seeds Regulations 1993 "as regards Wales". Y derminoleg arferol mewn darpariaethau o'r fath yw "in relation to Wales".
- Atodlen 2: dylai'r canlynol gael ei fewnosod yn y nodyn ymyl: rheoliadau 2(1), 5, 23(3)(b) a 25(3)(a)(ii).
- Atodlen 3: mae angen diwygio'r nodyn ymyl drwy fewnosod cyfeiriad at reoliad 2(1) a dileu'r cyfeiriad at reoliad 13(5)(d).
- Atodlen 3: mae angen diwygio'r nodyn ymyl drwy fewnosod cyfeiriad at reoliadau 8(15)(b), 13(3), a 17(2) a diwygio'r cyfeiriad at 13(5) i ddarllen 13(5)(e) i (g).
- Atodlen 7: dylai'r cyfeiriad yn y nodyn ymyl at reoliad 22(3) i (6) darllen 22(3) i (5) a dylai'r cyfeiriad at reoliad 27(6) ddarllen 27(7).
- Atodlen 8: mae angen diwygio'r nodyn ymyl drwy fewnosod rheoliad 25(8), (9), (10) ac (11). Mae angen rhagor o ddiwygio ar Atodlen 8 fel a ganlyn:

yng ngeiriau agoriadol paragraffau 2, 4, 8, 13, 15(a), 20, a 24(a) dylai'r cyfeiriad at baragraff 31 fod yn gyfeiriad at baragraff 28 (does dim paragraff 31);

ym mharagraffau 16, 21, 25, dylai'r cyfeiriadau at baragraff 32 fod yn gyfeiriadau at baragraff 29 (does dim paragraff 32);

ym mharagraffau 9, 10, 11 a 12, dylai'r cyfeiriad at baragraff 9 fod yn gyfeiriad at baragraff 8;

ym mharagraff 14, dylai'r cyfeiriad at baragraff 15 fod yn gyfeiriad at baragraff 13;

ym mharagraffau 16, 17, 18 a 19, dylai'r cyfeiriad at baragraff 18 fod yn gyfeiriad at baragraff 15;

ym mharagraffau 21, 22 a 23, dylai'r cyfeiriad at baragraff 23 fod yn gyfeiriad at baragraff 20;

ym mharagraff 23, dylai'r cyfeiriad at Seed (Registration, Licensing and Enforcement) Regulations 2002 fod yn gyfeiriad at Seed (Registration, Licensing and Enforcement) Regulations 2005;

ym mharagraffau 25, 26 a 27, dylai'r cyfeiriad at baragraff 27 fod yn gyfeiriad at baragraff 24;

ym mharagraff 28, dylai'r cyfeiriadau at baragraffau, 9, 15, 18, 23 a 27 fod yn gyfeiriadau at baragraffau 8, 13, 15, 20 a 24 yn y drefn honno.

- Atodlen 10: mewn perthynas â'r ymadrodd "Maintenance", dylai'r ddarpariaeth fod yn gyfeiriad at baragraff 29(2) o Atodlen 8.

O dan Reol Sefydlog 11.7(viii), tynnir sylw arbennig at y ffaith bod y Rheoliadau yma wedi'u gwneud yn uniaith Saesneg. Mae adran 66 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cynnwys darpariaeth i sicrhau mai dim ond os yw'r drafft yn Gymraeg ac yn Saesneg y caniateir i'r Cynulliad gymeradwyo drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw eitem o is-ddeddfwriaeth gyffredinol y Cynulliad oni bai ei bod, o dan yr amgylchiadau penodol, yn amhriodol neu heb fod yn rhesymol ymarferol i'r drafft fod yn ddwyieithog. Mae'r gofyniad yma wedi'i adlewyrchu yn Rheol Sefydlog 24.2.

Deallir bod y Gweinidog o'r farn ei bod yn amhriodol paratoi drafft dwyieithog am resymau sy'n cynnwys cymhlethdod y Rheoliadau a'r ffaith eu bod wedi'u hanelu'n bennaf at y diwydiant hadau bach yn hytrach nag at y cyhoedd yn gyffredinol neu gyrff gwirfoddol.

O dan yr amgylchiadau, bernir bod yr esboniad yn dderbyniol ac nad oes angen cymryd dim camau pellach.

Sylwadau

Mae pwyntiau fformadu, sy'n addas i'w cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau, wedi'u mynegi i'r cyfreithiwr a'u drafftiodd.

Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

18 Hydref 2005